# Nodyn Ymchwil: Polisi a Strwythurau Datblygu Cynaliadwy

Mawrth 2015

## Cyflwyniad

Mae'r nodyn ymchwil hwn yn rhoi trosolwg o'r prif strwythurau, polisïau a deddfwriaeth llywodraethu sydd eisoes ar waith yn fyd-eang, ac ar lefel yr UE a'r DU. Mae'r papur hefyd yn ystyried sut y mae'r polisi datblygu cynaliadwy yng Nghymru yn cyd-fynd â'r strwythurau hyn.

## Strwythur Llywodraethu Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol

Ers Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar yr Amgylchedd a Datblygu ym 1992, mae cytundeb byd-eang wedi bod ar ddatblygu cynaliadwy. Mae ein **Hysbysiad Hwylus ar Ddatblygu Cynaliadwy: Hanes a Chysyniadau** yn rhoi rhagor o fanylion am hanes datblygu cynaliadwy a sut y mae wedi datblygu drwy'r Cenhedloedd Unedig, ynghyd â chysyniadau ac egwyddorion cyffredin datblygu cynaliadwy.

Cytunwyd ar y fframwaith cyfredol ar gyfer gweithredu rhyngwladol ar ddatblygu cynaliadwy yng Nghynhadledd Rio+20 y Cenhedloedd Unedig ar Ddatblygu Cynaliadwy yn 2012. Arweiniodd y gynhadledd at y ddogfen ***The Future We Want***, a oedd yn nodi tri amcan cyffredinol ar gyfer datblygu cynaliadwy byd-eang:

– dileu tlodi;

– defnydd cynaliadwy; a

– gwarchod a rheoli adnoddau naturiol mewn perthynas â datblygu economaidd a chymdeithasol.

Mae ***The Future We Want*** yn nodi **24 o themâu y mae angen gweithredu arnynt i sicrhau datblygu cynaliadwy.** Mae'r themâu hyn yn cynnwys dileu tlodi, gwarchod a gwella'r amgylchedd, ynni, y newid yn yr hinsawdd, echdynnu a defnyddio adnoddau, trafnidiaeth, diogelwch bwyd a dŵr, addysg, iechyd a chynhwysiant cymdeithasol. Mae'r ddogfen hefyd yn **annog awdurdodau crefyddol, cenedlaethol, is-genedlaethol a lleol i ddatblygu a defnyddio strategaethau datblygu cynaliadwy** fel offerynnau allweddol ar gyfer llywio'r broses o wneud penderfyniadau a gweithredu datblygu cynaliadwy ar bob lefel.

Roedd y ddogfen yn ailadrodd Egwyddor 1 o Ddatganiad gwreiddiol Rio ym 1992, sef bod **pobl wrth wraidd datblygu cynaliadwy**. Roedd hefyd yn cydnabod bod **llywodraethu da a rheol y gyfraith yn hanfodol ar gyfer datblygu cynaliadwy**, a bod nodau, targedau a dangosyddion, gan gynnwys dangosyddion sy'n sensitif o ran rhywedd pan fo'n briodol, yn werthfawr wrth fesur ac ysgogi cynnydd.

Canlyniad pwysig arall yn sgil Cynhadledd Rio+20 oedd mandad o fewn *The Future We Want* i sefydlu cyfres o **Nodau Datblygu Cynaliadwy**. Mae'r 17 o Nodau bellach wedi'u cyhoeddi ac maent yn cynnwys dileu tlodi, gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd, mynediad at addysg, cydraddoldeb rhwng y rhywiau, gweithredu i atal colli bioamrywiaeth, twf economaidd ac ynni cynaliadwy.

### Strwythurau adrodd

Mae aelod-wladwriaethau'r Cenhedloedd Unedig sy'n cymryd rhan yn darparu gwybodaeth yn wirfoddol am eu polisïau, eu strategaethau a'u deddfwriaeth datblygu cynaliadwy. Mae adroddiadau a luniwyd o dan fframweithiau blaenorol, ynghyd â'r rheini a luniwyd o dan y fframwaith Rio+20 cyfredol, ar gael ar **Lwyfan Dealltwriaeth Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig**. Mae aelod-wladwriaethau wedi gwneud lefelau hollol wahanol o gynnydd; mae gan rai bolisïau a strategaethau manwl ac mae eraill

ar ddechrau eu taith o ran datblygu cynaliadwy. Mae gwledydd nodedig yn cynnwys:

– Y Ffindir, sydd wedi sefydlu **Comisiwn Datblygu Cynaliadwy Cenedlaethol** i hyrwyddo a monitro cynnydd ar ei strategaeth datblygu cynaliadwy; a

– Chanada, a gyflwynodd, yn 2008, ***Ddeddf Datblygu Cynaliadwy Ffederal*** i ddarparu'r fframwaith ar gyfer llunio, darparu a monitro'r **Strategaeth Datblygu Cynaliadwy Ffederal**.

## Polisi Datblygu Cynaliadwy yr Undeb Ewropeaidd

Cyhoeddwyd **Strategaeth Datblygu Cynaliadwy newydd yr UE** yn 2006. Mae'r strategaeth yn nodi **diffiniad yr UE** o ddatblygu cynaliadwy ac mae ganddi **bedwar amcan cyffredinol:**

– **gwarchod yr amgylchedd** (gan gynnwys atal colli bioamrywiaeth, byw o fewn cyfyngiadau amgylcheddol, lleihau llygredd a hyrwyddo defnydd cynaliadwy);

– **cydlyniad a chyfiawnder cymdeithasol** (gan gynnwys democratiaeth, cynhwysiant, iechyd, gweithio tuag at gymdeithas gyfiawn, hawliau dynol, amrywiaeth diwylliannol ac atal gwahaniaethu);

– **ffyniant economaidd** (gan gynnwys arloesedd, dealltwriaeth, cystadleuaeth, effeithlonrwydd ynni, safonau byw uchel a chyflogaeth lawn o ansawdd uchel); a

– **bodloni cyfrifoldebau rhyngwladol** (gan gynnwys heddwch, diogelwch, rhyddid a hyrwyddo democratiaeth a datblygu cynaliadwy yn fyd-eang).

Mae'r Strategaeth yn nodi **deg egwyddor arweiniol** ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch datblygu cynaliadwy, sy'n cynnwys yr egwyddorion rhagofalus a'r llygrwr-sy'n-talu adnabyddus, yn ogystal ag egwyddorion sy'n ymwneud ag ymgysylltiad dinasyddion, hyrwyddo a sicrhau hawliau sylfaenol, democratiaeth a thryloywder, integreiddio a chydlyniant polisi, llywodraethu a defnyddio gwybodaeth. Mae'r Strategaeth hefyd yn nodi **saith her allweddol**, ac mae targedau, amcanion gweithredol a chamau gweithredu'n cyd-fynd â hwy:

– y newid yn yr hinsawdd ac ynni glân;

– trafnidiaeth gynaliadwy;

– defnydd a chynhyrchiant cynaliadwy;

– gwarchod a rheoli adnoddau naturiol;

– iechyd cyhoeddus;

– cynhwysiant cymdeithasol, demograffeg a mudo; a

– thlodi'r byd a heriau o ran datblygu cynaliadwy.

Disgwylir i aelod-wladwriaethau'r UE adlewyrchu amcanion cyffredinol Strategaeth yr UE a gweithredu ar yr heriau allweddol drwy eu polisïau datblygu cynaliadwy eu hunain.

### Monitro ac adrodd

Mae gan yr UE gyfres o **Ddangosyddion Datblygu Cynaliadwy** sydd wedi'u defnyddio ar gyfer monitro cynnydd ers 2000. Sicrhaodd Strategaeth yr UE fod yr UE yn ymrwymo i lunio adroddiadau cynnydd bob dwy flynedd. Mae'r **adolygiad mwyaf diweddar o Strategaeth yr UE**, yn 2009, yn nodi **ymdrechion yr UE i brif-ffrydio datblygu cynaliadwy ym mhob maes polisi**, yn ogystal â chydnabod bod **tueddiau nad ydynt yn gynaliadwy yn parhau**, a'r angen i ddwysáu'r camau gweithredu mewn perthynas â datblygu cynaliadwy. Rhaid i aelod-wladwriaethau'r UE hefyd adrodd i'r UE ar gynnydd gyda'r Strategaethau Datblygu Cynaliadwy Cenedlaethol bob dwy flynedd.

## Polisi Datblygu Cynaliadwy y DU

Yn 2005, cyhoeddodd y DU ***Securing the future – delivering the UK sustainable development strategy***, a oedd yn nodi **diffiniad y DU** o ddatblygu cynaliadwy. Roedd yn canolbwyntio ar **bedair blaenoriaeth:**

– cynhyrchiant a defnydd cynaliadwy;

– y newid yn yr hisnawdd ac ynni;

– gwarchod adnoddau naturiol a gwella'r amgylchedd; a

– chymunedau cynaliadwy.

Roedd hefyd yn nodi **pum egwyddor arweiniol ar gyfer gwneud penderfyniadau**:

– byw o fewn cyfyngiadau amgylcheddol;

– sicrhau cymdeithas gref, iach a theg;

– sicrhau economi cynaliadwy;

– hyrwyddo llywodraethu da; a

– defnyddio gwyddoniaeth mewn ffordd gyfrifol.

Yn 2011, cyhoeddodd y Llywodraeth Glymblaid bapur, sef ***Mainstreaming Sustainable Development: The Government's vision and what this means in practice***. Mae'n tynnu sylw at y pwysigrwydd o ysgogi twf economaidd a mynd i'r afael â'r diffyg fel cydran o ddatblygu cynaliadwy, yn ogystal â sicrhau llesiant a gwarchod yr amgylchedd.

Roedd y papur yn nodi sut y byddai penderfyniadau ynghylch datblygu cynaliadwy yn cael eu prif-ffrydio o fewn adrannau'r llywodraeth a sut y byddai hyn yn cael ei fesur a sut y cynhelir gwaith craffu arno, gan gynnwys datblygu cyfres ddiwygiedig o 35 o **ddangosyddion datblygu cynaliadwy**, a gyhoeddwyd yn 2013. Roedd y papur hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd economi gwyrdd, galluogi gweithredu cymunedol drwy'r "Gymdeithas Fawr" a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

Ers y papur hwn, nid oes diweddariad arall wedi bod ar Strategaeth Datblygu Cynaliadwy y DU ar y cyfan, ond mae polisïau datblygu cynaliadwy wedi'u defnyddio o fewn adrannau Llywodraeth y DU. Mae'r adrannau'n adrodd ar eu cynnydd mewn perthynas â datblygu cynaliadwy bob blwyddyn. Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cyflwyno **Greening Government Commitments**, sef targedau ar gyfer adrannau llywodraeth ganolog a'u hasiantaethau i leihau gwastraff, y defnydd o ddŵr ac allyriadau carbon yn sylweddol erbyn 2015. Mae wedi cyflwyno amrywiaeth o bolisïau caffael cynaliadwy fel rhan o'r ymrwymiadau hyn.

## Polisi datblygu cynaliadwy yng Nghymru

Mae Strategaeth Datblygu Cynaliadwy y DU yn gymwys i Gymru ac mae adroddiadau cynnydd dwywaith y flwyddyn y DU i'r UE yn cynnwys Cymru. Fodd bynnag, o dan **Adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006**, mae'n ddyletswydd hefyd ar Lywodraeth Cymru i baratoi Cynllun Datblygu Cynaliadwy sy'n nodi sut mae'n bwriadu hyrwyddo datblygu cynaliadwy wrth arfer ei swyddogaethau. Rhaid iddi adrodd ar hyn bob blwyddyn i'r Cynulliad, ac yn y flwyddyn ar ôl etholiad, rhaid iddi adrodd ar ba mor llwyddiannus y mae'r cynllun wedi bod yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy dros gyfnod y Cynulliad blaenorol.

### Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned

Yn 2009, lansiodd Llywodraeth Cymru ei chynllun datblygu cynaliadwy newydd, ***Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned***, a oedd yn ceisio sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn egwyddor ganolog gan Lywodraeth Cymru. Defnyddiodd y diffiniad a ganlyn:

> Yng Nghymru, ystyr datblygu cynaliadwy yw rhywbeth sy'n **gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau, gan wella ansawdd bywyd i'n cenhedlaeth ni ac i genedlaethau'r dyfodol, mewn ffyrdd sy'n:**

- **Hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal;**
- **Gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol ac yn parchu ei derfynau - gan ddefnyddio dim ond ein cyfran deg o adnoddau'r byd a diogelu ein treftadaeth ddiwylliannol.**

Datblygu cynaliadwy yw'r broses a ddefnyddiwn i gyflawni nod cynaliadwyedd.

Roedd y cynllun yn disgrifio ei weledigaeth ar gyfer Cymru gynaliadwy ac roedd yn nodi pum dangosydd pennawd sy'n gysylltiedig â Chymru gynaliadwy, ac mae gan bob un bennod sy'n nodi'r prif bolisïau a strategaethau a fydd yn helpu i'w cyflawni. Ym mhob pennod, cafodd rhai camau gweithredu penodol eu nodi hefyd. Dyma'r pum dangosydd pennawd:

- defnyddio adnoddau mewn ffordd gynaliadwy;
- gwarchod yr amgylchedd:
- economi cynaliadwy;
- cymdeithas gynaliadwy; a
- lles Cymru.

Roedd y cynllun hefyd yn nodi **dwy egwyddor graidd** (cynnwys pobl a chymunedau, ac integreiddio) a **chwe egwyddor ategol**: yr egwyddorion rhagofalus a'r llygrwr-sy'n-talu, yr egwyddor agosrwydd (dim allforio problemau cymdeithasol ac amgylcheddol), lleihau ein hôl troed ecolegol, ystyried y costau a'r buddiannau llawn ac adlewyrchu gwahanolrwydd (ymateb i amgylchiadau lleol). Dylai'r ddwy egwyddor graidd gael eu defnyddio'n gyffredinol wrth wneud pob penderfyniad, ond gellir dewis defnyddio'r egwyddorion ategol, yn dibynnu ar ba mor briodol ydynt i'r sefyllfa.

Yn ogystal â'r adroddiadau blynyddol ar ddatblygu cynaliadwy o dan ddyletswydd Deddf Llywodraeth Cymru 2006, mae gan Lywodraeth Cymru gyfres o **ddangosyddion datblygu cynaliadwy** y mae'n eu defnyddio i fesur cynnydd.

## Y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Yn 2011, ymrwymodd y Llywodraeth newydd yng Nghymru yn ei Rhaglen Lywodraethu i gyflwyno deddfwriaeth ar ddatblygu cynaliadwy.

Ymgynghorodd ar y ***Papur Gwyn ar y Bil Datblygu Cynaliadwy*** yn 2012-13 a gosododd y ***Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)*** ar 7 Gorffennaf 2014.

Diben y Bil yw

- pennu fframwaith lle bydd awdurdodau cyhoeddus penodol yng Nghymru yn ceisio sicrhau bod anghenion cyfredol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain (yr **egwyddor datblygu cynaliadwy**);
- rhoi **nodau llesiant** ar waith y bydd yr awdurdodau hynny'n ceisio eu cyflawni er mwyn gwella llesiant nawr ac yn y dyfodol, nodi sut y bydd yr awdurdodau hynny'n dangos eu bod yn gweithio tuag at y nodau llesiant;
- sefydlu **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chynlluniau llesiant lleol** ar sail statudol a, thrwy wneud hynny, symleiddio'r gofynion cyfredol mewn perthynas â chynllunio cymunedol integredig; a
- sefydlu **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Cymru** i fod yn eiriolwr ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a fydd yn cynghori, yn cefnogi ac yn monitro sut y mae awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru yn cyflawni eu dyletswyddau o dan y Bil.

Gwnaeth Pwyllgor yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy y Cynulliad 32 o argymhellion ar gyfer gwella'r Bil yn ei adroddiad Cyfnod 1. Roedd hefyd yn argymell bod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil, **dim ond os bydd Llywodraeth Cymru yn cytuno i dderbyn a mynd i'r afael â 12 o argymhellion penodol** yr oedd y Pwyllgor o'r farn eu bod yn hanfodol i effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth. Cytunodd Llywodraeth Cymru i dderbyn 9 o'r rhain, a chytunodd y Cynulliad ar egwyddorion cyffredinol y Bil ar 9 Rhagfyr 2014. Mae'r Bil bellach wedi'i basio, yn ddarostyngedig i Gydsyniad Brenhinol, ar ôl gwelliannau Cyfnod 2 a Chyfnod 3 a oedd yn cynnwys **gwelliannau i'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r nodau llesiant.**

Ar ôl cyflwyno'r Bil, cynigiodd Llywodraeth Cymru wneud cais i Lywodraeth y DU **am bwerau i ddiwygio Adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.** Rhoddwyd y pwerau hyn a chyflwynodd Llywodraeth Cymru welliant yng Nghyfnod 3 proses graffu'r Bil. Cytunwyd ar y gwelliant hwnnw. Mae'r gwelliant yn cynnwys Adran 79 newydd yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n **caniatáu i Lywodraeth Cymru ryddhau ei dyletswydd i hyrwyddo datblygu cynaliadwy drwy arfer ei swyddogaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.** Bydd y Ddeddf yn ei gwneud yn ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus i bennu amcanion yn unol â'r nodau llesiant, a chymryd camau i'w cyflawni yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Bydd yn ofynnol o hyd i Lywodraeth Cymru **adrodd yn flynyddol ar sut y mae'n hyrwyddo datblygu cynaliadwy**, a gosod yr adroddiadau hyn gerbron y Cynulliad. **Nid yw'r Adran 79 newydd yn cyfeirio at y gofyniad i lunio cynllun datblygu cynaliadwy mwyach.**

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am y **Polisi a Strwythura Datblygu Cynaliadwy**, cysylltwch â **Karen Whitfield** (**Karen.Whitfield@Cynulliad.Cymru**), y Gwasanaeth Ymchwil.

**Gweler hefyd:**

Hysbysiad Hwylus ar Ddatblygu Cynaliadwy: Hanes a Chysyniadau

- **Gwefan polisi datblygu cynaliadwy y Comisiwn Ewropeaidd**
- **Gwefan polisi datblygu cynaliadwy Llywodraeth y DU**
- **Gwefan polisi datblygu cynaliadwy Llywodraeth Cymru**

Mae ein **hystod lawn o gyhoeddiadau** ar gael ar wefan y Cynulliad: **Cynulliad.Cymru.org/Ymchwil**

Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter: **@SeneddYmchwil**

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon at: **Y Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon drwy e-bost at **Research.Service@Cynulliad.Cymru**

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio'r Nodyn Ymchwil hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant roi cyngor i aelodau'r cyhoedd.

**Rhif yr ymholiad: 15/0406**